



## Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Casblaidd

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Casblaidd yn gymuned hapus a chyfeillgar. Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn naws gartrefol a chynhwysol yr ysgol. Teimla'r disgyblion yn ddiogel a hapus a datblygant berthynas waith gryf â'r staff. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol ac maent yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn awyddus iawn i wneud eu gorau. Mae pawb yn cael eu parchu ac maent yn ofalgar iawn o'i gilydd.

Mae effaith arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn weledol ar draws yr ysgol. Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth wedi sefydlu gweithdrefnau cadarn i fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r staff ymroddedig yn gweithio'n hynod effeithiol i greu amgylchedd dysgu cynhwysol i'r disgyblion. Mae arweinwyr yn monitro a gwerthuso'r cynnydd yn fedrus ac yn adnabod blaenoriaethau gwella yn synhwyrol. Mae'r llywodraethwyr yn weithredol fel ffrindiau beirniadol ac yn cefnogi holl weithgareddau'r ysgol yn fwriadus.

Darperir cwricwlwm creadigol, eang a chytbwys i'r disgyblion. Mae'r athrawon yn cynllunio ystod o brofiadau cyfoethog a gweithgareddau diddorol sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun lleol yr ysgol. Maent yn sicrhau cyflymder addas i'r gweithgareddau ac yn darparu profiadau dysgu sy'n ysgogol. Fodd bynnag, mae tueddiad i staff arwain gormod ar y gweithgareddau, ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn. Maent yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn addas erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n datblygu medrau digidol priodol.

Nodwedd gref yw perthynas yr ysgol â'i chymuned leol. Rhoddir cyfleoedd cyson a gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau cymunedol fel gwasanaethau yn y capel lleol a digwyddiadau'r ŵyl flynyddol sy'n fodd i feithrin eu hunanhyder a'u gallu corfforol, mynegiannol a chreadigol.

# Argymhellion

A1 Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

A2 Datblygu medrau digidol disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.



# Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Ysgol Gynradd Casblaidd
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Penfro
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	52
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	39
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	7
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%)	0.0%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	02/01/2023
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	01/11/2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad	19/02/2024

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/04/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.